



E-GYLCHLYTHYR Haf 2017

1



Yr wybodaeth ddiweddaraf am y TYR

Croeso i'n cylchlythyr ar ei newydd wedd! Dylech allu llywio gan ddefnyddio'r dolenni yn y blwch cynnwys ar y dde. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw sylwadau ar y fformat.

Rydym hefyd yn datblygu ein gwefan newydd sbon; mae'r cyfeiriad ar waelod y dudalen. Nid yw hi'n 'fyw' eto ond rydym yn gobeithio y bydd hi erbyn diwedd yr haf. Cadwch olwg ar ein tudalen Twitter i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyn, a dilynwch ni i gael rhagor o newyddion rhanbarthol yn ymwneud â Chyllid Ewropeaidd: [@SEWalesRET](https://twitter.com/SEWalesRET)

Yn ystod y chwarter diwethaf mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol (TYR) wedi bod yn brysur yn cynorthwyo Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd cyllido sydd wedi bod ar gael ar gyfer y rhanbarth. Mae sawl galwad wedi bod am geisiadau i raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Dwyrain Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer y galwadau olaf oedd 30 Mehefin. Diolch i bawb am eich cymorth wrth ledaenu'r wybodaeth ac am ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r prosiect.

Ym mis Mai fe wnaethom gynnal digwyddiad gwybodaeth ar gyfer prif fuddiolwyr ESF yn y Future Inns, Caerdydd. Roedd y cyflwyniadau yn cynnwys:

- diweddariad ar y Fargen Ddinesig gan Richard Crook, arweinydd sgiliau ar Fwrdd Rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR);
- arfer gorau wrth gaffael;
- argymhellion da ar hyrwyddo prosiectau a ariennir gan yr UE; a
- chanllawiau ar y broses o archwilio a gwirio.

Os hoffech gael copi o'r sleidiau o unrhyw un o'r cyflwyniadau, cysylltwch â ni. Cynhelir digwyddiad arall cyn diwedd y flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y TYR

Tudalen 1

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfnod pontio'r UE

Tudalen 2

Tasglu'r Cymoedd

Tudalen 2

Buddsoddi mewn twristiaeth

Tudalen 3

Bwrw ymlaen â'r Metro

Tudalen 3

Ymrwymiad buddsoddi cyntaf ar gyfer CCR

Tudalen 4

Horizon 2020

Tudalen 4

Newidiadau i'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol

Tudalen 5

Diwrnod Ewrop 2017

Tudalen 6

Digwyddiadau sydd i ddod

Tudalen 6

Yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfnod pontio'r UE

Wrth i'r trafodaethau swyddogol ddechrau rhwng cynrychiolwyr y DU a'u swyddogion cyfatebol yn yr UE, mae pwyslais mwy fyth ar "Brexit" a'r goblygiadau posibl i Gymru.

Ar 15 Mehefin, lansiodd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, y papur polisi "Brexit a Datganoli".



Mae'r papur yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru i bwerau sydd eisoes wedi'u datganoli barhau i fod wedi'u datganoli ar ôl gadael yr UE, oni bai bod Llywodraeth y DU yn

deddfu'n benodol i newid y setliad datganoli. Mae'n dilyn y Papur Gwyn a lansiwyd ym mis Ionawr, Diogelu Dyfodol Cymru, sy'n nodi blaenoriaethau Cymru o ran y trafodaethau â'r UE, gan gynnwys yr angen i sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru o ran cyllid yn lle cronfeydd yr UE.

Dywedodd y Prif Weinidog: "Rydym o'r farn hefyd bod gadael yr UE yn creu'r angen am ddynameg newydd rhwng y pedair llywodraeth yn y DU. Mae'n amlwg bod llawer mwy y dylem ni ei wneud gyda'n gilydd os ydym i symud ymlaen yn gyflymol yn ein hamgylchiadau newydd. Rydym ni'n cynnig sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU fel dull o ddatblygu agenda gyffredin yn y dyfodol yn seiliedig ar egwyddorion democrataidd, ac yn amlinellu'r broses honno. Y nod yw parchu pawb a bygwth neb. Yn y cyd-destun hwn, bwriad y ddogfen polisi yw cyfrannu'n adeiladol at y trafodaethau sydd eu hangen i ddatblygu fframwaith cyfansoddiadol cryfach yn y DU, sydd â datganoli wrth ei wraidd."

Ceir y ddogfen ar-lein yn www.gov.wales/brexit ynghyd â recordiad o araith y Prif Weinidog.

[...yn ôl i'r brig](#)

Tasglu'r Cymoedd

Dros y chwe mis diwethaf, mae Tasglu'r Cymoedd wedi bod yn cwrdd, siarad a gwrando ar bobl Cymoedd De Cymru. Rydym ni wedi siarad â thua 600 o unigolyn wyneb yn wyneb, wedi derbyn dros 1000 o atebion i'r arolwg ar-lein, wedi cael 2.2 miliwn o argraffiadau Twitter gan gyrraedd 495,000 ac wedi sefydlu cronfa ddata i roi gwybodaeth am daith #TrafodyCymoedd i'r rheini yr ydym wedi ymgysylltu â nhw.

Cafodd y tasglu brofiad o weld pa mor gryf yw cymunedau'r cymoedd, a'u dawn a'u gweledigaeth. Mae'r holl wybodaeth, y sylwadau a'r syniadau yn cael eu dadansoddi a'u trafod nawr, er mwyn datblygu cynllun ar gyfer y Cymoedd a fydd yn cael ei lansio cyn hir. Ar ôl cwblhau'r cynllun, mae'r tîm yn awyddus iawn i weithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddatblygu

a darparu'r cynllun.

Os ydych chi'n dymuno #TrafodyCymoedd, yna ewch i'n [gwe-dudalennau](#) i ddysgu mwy. Gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar Facebook ar "Trafod y Cymoedd" ac ar Twitter [@WG_Communities](#). Fel arall, cysylltwch â ni drwy neges e-bost at trafodycymoedd@cymru.gsi.gov.uk a thanysgrifio i'n cylchlythyr.



[...yn ôl i'r brig](#)

Buddsoddi mewn twristiaeth

Wrth i'r tymheredd godi yng Nghymru ac wrth i'r sector twristiaeth ymateb i'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, rydym yn rhoi cipolwg ar raglen Cyrchfannau Denu Twristiaid a ariennir gan ERDF yn gyflym ac ar un o'i phrosiectau ar gyfer Rhanbarth y De-ddwyrain - The Summit Centre - Canolfan Ddringo Ryngwladol Cymru yn flaenorol, yn Nelson, Merthyr Tudful.

Dechreuodd y gwaith ar y datblygiad newydd ym mis Mawrth eleni diolch yn rhannol i £2.3 miliwn o Gyllid yr UE drwy Gylchfannau Denu Twristiaid. Bydd yn creu ychwanegiadau cyffrous i'r ganolfan gan gynnwys canolfan breswyl ac addysg awyr agored gyda 100 o welyau, campfa newydd, maes chwarae awyr agored, caffi ac ystafelloedd cyfarfod.

Mae Prif Swyddog Gweithredol Rock UK John Heasman wedi dweud: "Mae'r gymuned leol wrth wraidd ein gweledigaeth a bydd y cyfleusterau newydd yn ychwanegu at y ganolfan ddringo drawiadol sy'n bodoli'n barod a byddant hefyd ar gael i bawb eu mwynhau, gan weddnewid bywydau ifanc yng Nghymru."

Disgwylir i'r atyniad fod ar agor yn gyfan gwbl erbyn gwanwyn 2018, gan ddod â swyddi newydd a mwy o ymwelwyr i'r ardal.




I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Thelma.Jones-Terry@wales.gsi.gov.uk

...yn ôl i'r brig

Bwrw ymlaen â'r Metro

Mae manylion yn dod i'r amlwg ar gynlluniau ar gyfer Metro newydd y rhanbarth a bydd cyllid yr UE yn chwarae rhan bwysig o ran gweithredu'r cynllun.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TC), ar ran Llywodraeth Cymru, yn y broses o gaffael Partner Gweithredu a Chyflenwi (ODP) i ddatblygu a chyflenwi gwelliannau ar gyfer llinellau Craidd y Cymoedd a hefyd ar gyfer gwasanaeth rheilffyrdd ehangach Cymru a'r Gororau.



Nid ydym yn gwybod eto sut y bydd "Metro Cam 2" yn edrych oherwydd y bydd hyn yn

dibynnu ar ba un o'r pedwar cynigydd sy'n cystadlu am y contract fydd yn ei ennill, ond mae gan bob un ohonynt gynlluniau i wella trafndiaeth De-ddwyrain Cymru yn sylweddol, gan ddarparu gwasanaethau cyflymach, amlach a gwyrdach.

Gan weithio ar amserlen fwy cyfyng oherwydd canlyniadau refferendwm yr UE, mae TC yn datblygu cynnig i ERDF yn seiliedig ar elfennau hanfodol o seilwaith y bydd eu hangen ar bob un o'r cynigwyr. Prosiect Mawr yw hwn: mae Llywodraeth Cymru, WEFO a TC wedi bod yn trafod y cynlluniau gydag ymgynghorwyr penodedig Comisiwn yr UE, gyda'r bwriad o gyflwyno cynnig cyn diwedd y flwyddyn.

Os na fydd unrhyw anawsterau, caiff yr ODP ar gyfer y Metro ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018.

Yn ogystal â bod o fudd i deithwyr, gobeithir y bydd y Metro yn creu cyfleoedd i fusnesau yn y Cymoedd a Chaerdydd. Heb os, fe ddaw â buddion amgylcheddol a bydd yn helpu i fynd i'r afael â'r tagfeydd traffig cynyddol, bydd yn helpu pobl i fynd i'r gwaith a defnyddio gwasanaethau a dylai hefyd ysgogi'r broses o adfywio.

...yn ôl i'r brig

Ymrwymiad buddsoddi cyntaf ar gyfer CCR

Mae Cabinet Rhanbarthol CCR wedi cytuno ar fuddsoddiad o £37.9 miliwn tuag at ddatblygu clwstwr diwydiannol Lled-ddargludyddion Cyfansawdd yn Ne-ddwyrain Cymru.

Daw'r cyllid o Gronfa Buddsoddi Ehangach Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – a hwn yw'r buddsoddiad cyntaf o'r fath ers i'r rhaglen, gwerth £1.2 biliwn, gael ei chadarnhau'n swyddogol gan arweinyddion y deg awdurdod lleol yn y rhanbarth ar 1 Mawrth 2017.

Disgwylir i'r prosiect fanteisio ar £375 miliwn o fuddsoddiad gan y sector preifat yn ystod y pum mlynedd nesaf, a chreu hyd at 2,000 o swyddi gwerth uchel ym maes uwch-dechnoleg, gyda'r posibilrwydd o greu cannoedd mwy yn y gadwyn cyflenwi a chlwstwr datblygu ehangach.


Caiff cyfleuster o'r radd flaenaf ei adeiladu yn CCR i fod yn gartref i brosesau datblygu cymwysiaid Lled-ddargludyddion Cyfansawdd a gweithgynhyrchu Lled-ddargludyddion Cyfansawdd ar raddfa fawr, gan helpu i sefydlu Clwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd cyntaf y byd yn y rhanbarth. Mae trafodaethau i gytuno ar leoliad yn parhau, ond Casnewydd yw'r lleoliad mwyaf tebygol.

Yn 2016, cyhoeddodd Innovate UK - asiantaeth arloesi Llywodraeth y DU – y bydd yn buddsoddi £50 miliwn i sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Gatapwlt newydd ar gyfer lled-ddargludyddion Cyfansawdd yng Nghymru a fydd nawr yn cael ei lleoliad yn CCR

Bydd y Catapwlt newydd hwn yn adeiladu ar fuddsoddiad sy'n bodoli gan Brifysgol Caerdydd, IQE plc a Llywodraeth Cymru.

Cafodd y fargen ei chroesawu gan y Prif Weinidog a ddywedodd: "Rwy'n falch iawn bod ein buddsoddiad o £12 miliwn wedi sbarduno'r broses o greu'r clwstwr diwydiannol lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd yng Nghasnewydd. Mae'r buddsoddiad mawr hwn yn gosod Cymru ar flaen y gad o ran y dechnoleg gyffrous hon, sydd â'r gallu i newid y ffordd yr ydym ni'n byw. Yn ogystal â rhoi hwb i enw Cymru yn fyd-eang fel arweinydd yn y maes hwn, bydd y safle newydd yng Nghasnewydd yn rhan o sector uwch-dechnoleg Cymru sy'n tyfu, a disgwylir i hyn greu mwy na 2,000 o swyddi sgil uchel â chyflog da. Mae'r cyhoeddiad heddiw yn newyddion gwych i Gymru – a hwn yw'r cyntaf o nifer fawr o brosiectau newydd a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i economi De-ddwyrain Cymru ac yn y pen draw, i fywydau'r bobl."

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.cardiffcapitalregioncitydeal.wales



[...yn ôl i'r brig](#)

Horizon 2020



Mae adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru (LIC) 2016 ar Horizon 2020 ar gael bellach. Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad sefydliadau yng Nghymru wrth gael gafael ar Horizon 2020. Mae'n archwilio'r cynnydd a wnaed ar amcanion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y gronfa hyd at ddiwedd 2016 ac mae'n edrych ymlaen at weithgareddau yn y dyfodol. Mae'r adroddiad ar gael [fan hyn](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Newidiadau i'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol



Mae rhai newidiadau wedi bod i Gronfa Cynhwysiant Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA). Yn ystod y misoedd diwethaf, mae WCVA wedi bod yn brysur yn cynllunio a gweithredu nifer o newidiadau a gwelliannau i'w Gronfa Cynhwysiant Gweithredol. Mae'r gronfa, a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ar gael i ddarparu cyllid i sefydliadau a all gynorthwyo pobl symud yn agosach at y farchnad gyflogaeth, gyda'r nod cyffredinol o leihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru. Fodd bynnag, i'r sefydliadau sy'n trefnu'r prosiectau hyn, mae hyn yn ymwneud â llawer mwy na lleihau anweithgarwch economaidd.

Maent yn dymuno gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl, eu helpu i wireddu eu potensial, rhoi gobaith i bobl a allai fel arall roi'r ffidil yn y to, a rhoi hyder a chyfleoedd i bobl - weithiau hyd yn oed ail gyfle. [Mae hanes ysbrydoledig Helen, Nick, Franco ac Amanda y gweddnewidiwyd eu bywydau yn llwyr gan ymyrraeth a chymorth gan brosiect Bounce Back a ariennir gan Gynhwysiant Gweithredol yn brawf o hyn.](#)



Mae'r tîm yn WCVA wedi gweld bod rhai sefydliadau yn gallu ei chanfod yn rhwystredig weithiau i redeg prosiect a ariennir gan Ewrop a'u bod yn nodi problemau fel protocolau adrodd llym a gofynion cymhwysedd cyfyng. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae'n bwysig cadw golwg ar wir ddiben cynnal prosiectau o'r fath – sef i roi cymorth i bobl i wella eu bywydau a'u lles. Felly, mae WCVA wedi mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn parhau i gyflawni prosiectau gwyb ac yn y pen draw yn gwneud gwahaniaeth i fywydau cannoedd o bobl yng Nghymru.

Beth yw'r newidiadau i'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol? Dyma ychydig o'r uchafbwyntiau:

- Mae'n cynnig prosiectau ar raddfa fwy ar draws nifer o siroedd erbyn hyn, hyd yn oed ar raddfa genedlaethol.
- Cewch wneud cais i weithio mewn ardaloedd ehangach gan fod y cylchoedd grant yn llai cyfyng ac mae newidiadau'n golygu bod gofynion adrodd cyfranogwyr yn haws ar gyfer prosiectau.
- Erbyn hyn, cewch drefnu prosiect sy'n cyfuno gweithgareddau cynhwysiant â gweithio tuag at gael cymwysterau. Gallai hyn fod ar gyfer pobl ifanc a phobl dros 25 mlwydd oed, ledled Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
- Mae prosiectau'r trydydd sector ledled Dwyrain Cymru bellach yn manteisio ar gyfradd ymyrryd uwch.

Felly os ydych chi'n sefydliad trydydd sector ac nad ydych wedi defnyddio cyllid Ewropeaidd yn y gorffennol, dylech ystyried y cyfle newydd a gwell hwn tra ei fod ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth am y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a manylion sut i wneud cais ar gael ar [dudalennau gwe newydd WCVA ar y wefan](#). Fel arall, gallwch anfon neges e-bost i'r tîm at activeinclusion@wcva.org.uk neu ffonio desg gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

[...yn ôl i'r brig](#)

Diwrnod Ewrop 2017

Roedd y 9fed o Fai yn Ddiwrnod Ewrop a gwelwyd gweithrediadau a ariennir gan gyllid Ewropeaidd ledled rhanbarth y De-ddwyrain yn dathlu ac yn anfon negeseuon Twitter i ddangos eu cefnogaeth. Dyma ychydig o'r lluniau a rannwyd ganddynt!



[...yn ôl i'r brig](#)

Digwyddiadau sydd i ddod

- 4 Gorffennaf – Cyfarfod rhwydwaith Blaenoriaeth 3 ESF
- 7 Medi - Cyfarfod rhwydwaith Blaenoriaeth 1 ESF
- 19 Medi - Cyfarfod rhwydwaith Blaenoriaeth 2 ESF
- 21 Medi – Uwchgynhadledd Sgiliau y Bartneriaeth Medrau, Dysgu ac Arloesi

[...yn ôl i'r brig](#)